# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd

ar lein drwy Zoom, nos Lun, 28 Chwefror 2022 am 7 yr hwyr.

1. **Croeso ac ymddiheuriadau**

**Presennol:** JF, BH, KH, LJ, CJ, OGR, JAR (Cadeirydd), RWO (clerc)

Ymddiheuriadau: BE/EJ/ VO/EABT.

**2. Datgan Diddordeb:** CJ eitem 4, KH eitem 5.

**3. Arwyddo cofnodion Tachwedd 2021.**

Derbynwiyd y cofnodion fel rhai cywir. OGR yn cynnig, LJ yn eilio.

**4. Materion yn codi**

4.1 Nodwyd ebost Ffrindiau Bodedern yn nodi na fyddent yn parhau gyda gwaith y parc am nifer o resymau. Ffrindiau Bodedern wedi cael copi o'r les rhwng CSYM a Cyngor Cymuned Bodedern, ond dim copi wedi dod i'r Cyngor. Diolchwyd i Ffrindiau Bodedern am eu gwaith. Y clerc i geisio cael copi o'r les, a chael prisiau ar gyfer archwiliad o'r parc.

4.2 Cytunwyd i ohurio rhannu arian elusen David Williams unwaith eto.

**5. Gosod praesept 2022-23**

Cytunwyd i osod y praesept yn £14,000.

**6. Deddf Cynllunio a Gwlad a Thref: I dderbyn unrhyw sylwadau ar geisiadau cynllunio.**

6.1 4 Llys yr Engan, Bodedern. Dim Gwrthwynebiad.

6.2 Cymunod, Caergeiliog. Dim gwrthwynebiad.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com

**7. Gohebiaeth i'w adolygu.**

Cadarnahd gan CSYM ynglyn a dyddiadau electiwn 2022.

**8. Taliadau i'w gwneud –** Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol. (*Yn unol a Rheol 12 o'r Rheolau Sefydlog)*

Dim.

**9. Eitemau a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Cynghorwyr.**

9.1 LJ yn nodi fod Towyn Trewan wedi gosod giat a clo, ond ei fod wedi ei dorri ddwywaith. Goriad wedi ei roi i drigolion sydd yn gymwys.

9.2 JF yn nodi pryder fod twmpathau arafu traffic wedi eu gosod yn Llanfaelog, er i CSYM wrthod gwneud hynnu ym Modedern. Y clerc i wneud ymholiadau pellach gyda'r adran briffyrdd.

9.2 KH yn nodi bod ei dymor yn dod i ben gyda'r etholiadau newydd, yn diolch i'r Cyngor.

9.3 Y cadeirydd wedi cael ei hysbysu mae'r Cyngor Cymuned oedd nawr yn gyfrifol o'r ganolfan ym Mro'r Ysgol, sydd yn cael ei defnyddio gan Coleg Menai, gyda chlo newydd wedi ei osod. Y clerc yn cadarnhau and oedd unrhyw drafodaeth na chysylltiad wedi bod gyda unrhyw un o CSYM, a dim eglurhad o pwy oedd wedi gwneud y penderfyniad yma heb ymgynghori gyda'r Cyngor Cymuned. Y clerc i gysylltu a'r adran dai a oedd yn gyfrifol pan oedd y ganolfan yn cael ei defnyddio gan y Cyngor Cymuned cyn y pandemig.

9.4 Y cadeirydd yn mynegi pryderon ynglyn a'r parcio ger siop y pentref, gyda sefyllfa anodd iawn i gerbydau ddod i'r lon o'r lon gefn. Y clerc i gysylltu a'r adran briffyrdd a tim plismonna lleol.

9.5 Y cadeiryd dyn nodi sbwriel wedic asglu ar lon Dywyll. Y clerc I gysylltu a priffyrdd CSYM.

9.6 Y cadeirydd yn nodi bod y fynwent yn llenwi, ac bydd angen trafodaeth ynglyn a'r ffordd orau ymlaen. I'w nodi ar agenda mis Mawrth ar gyfer trafodaeth pellach.

**10. Dyddiad cyfarfod nesaf.**

28/3/2022.

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Rhoscryman Bach, Llanfairynghornwy, LL65 4LS.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com